Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Diolch am wneud ymholiad ynglŷn â Meithrinfa Medra, ac am ystyried dewis y feithrinfa i ddarparu gofal ac addysg i'ch plentyn.

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r pecyn hwn i chi, sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i chi wneud eich penderfyniad. Rydym yn cydnabod fod dewis meithrinfa ar gyfer eich plentyn yn benderfyniad pwysig iawn, felly, os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd o'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau peidiwch â phetruso rhag cysylltu â ni. Mae'r manylion cyswllt i'w cael yn y pecyn.

Os penderfynwch yr hoffech anfon eich plentyn i Meithrinfa Medra, rhaid llenwi *Ffurflen Datgan Diddordeb* a'i dychwelyd i **Meithrinfa Medra, Canolfan Plant Llangefni, Ffordd y Coleg, Llangefni, LL77 7LP.** Ar ôl derbyn y ffurflen byddwn yn cysylltu â chi.

Edrychwn ymlaen at gael croesawu eich plentyn i'r feithrinfa.

Yn gywir

D.Lowri Owen
Rheolwr Meithrinfa Medra

Dear Parent/Guardian,

Thank you for your enquiry about Meithrinfa Medra, and for considering choosing the nursery to provide care and education for your child.

We are very pleased to present you with this pack, which will provide you with the necessary information to enable you to make an informed decision. We acknowledge that choosing a nursery is a very important decision, so should you wish to discuss any aspect of the provision or the facilities, please don't hesitate to contact us on any of the contact numbers shown in the pack.

If you decide that you would like to send your child to Meithrinfa Medra, please complete and return the *Expression of Interest Form* to **Meithrinfa Medra, Canolfan Plant Llangefni, Ffordd y Coleg, Llangefni, LL77 7LP.** After receiving the form we will contact you.

We look forward to being able to welcome your child to the nursery.

Yours faithfully

D.Lowri Owen
Manager, Meithrinfa Medra

UNIGOLION CYFRIFOL / *RESPONSIBLE PERSONS*

Dr Gwenllian Lawnsdown Davies
PRIF WEITHREDWR MUDIAD MEITHRIN /*CHIEF EXECUTIVE*

Ms Leanne Marsh
DIRPRWY BRIF WEITHREDWR MUDIAD MEITHRIN / DEPUTY *CHIEF EXECUTIVE*

PERSONAU Â GOFAL / *PERSONS IN CHARGE*

Miss D. Lowri Owen
RHEOLWR MEITHRINFA MEDRA / *MEITHRINFA MEDRA MANAGER*
lowri@meithrinfamedra.co.uk

MEITHRINFA MEDRA
CANOLFAN PLANT LLANGEFNI
LÔN TALWRN
LLANGEFNI
YNYS MÔN
LL77 7LP
Ebost / Email: **post@meithrinfamedra.co.uk**
Rhif ffôn / Tel No: **01248 725825**

GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mudiad Meithrin, prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yng Nghymru sy'n darparu'r gwasanaeth ym Meithrinfa Medra. Gyda 180 o staff proffesiynol ar draws Cymru, mae'r feithrinfa yn gallu tynnu ar arbenigedd gweithwyr ar lefel Cymru gyfan.

Blaenoriaeth Meithrinfa Medra yw hapusrwydd a diogelwch pob plentyn – cynigir y gofal gorau posib mewn awyrgylch hapus a chartrefol, a chyfle i bob plentyn ddysgu trwy chwarae a datblygu i'w lawn botensial. Mae pob ystafell yn cynnwys offer, teganau ac adnoddau o'r ansawdd uchaf, sy'n adlewyrchu anghenion, datblygiad ac oedran y plant. Cyflwynir gweithgareddau i'r plant dros 2 oed, sy'n hyrwyddo'r Cyfnod Sylfaen 3-7oed (y cwricwlwm blynyddoedd cynnar cenedlaethol) er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cychwyn gorau posib ymhob agwedd o'u haddysg. Rhoddwyd sylw manwl i gynllunio'r mannau chwarae tu allan, er mwyn cynnig cyfleoedd a gosod pwyslais ar weithgareddau ysgogol i blant yn yr awyr agored.

Mae ystafelloedd penodol ar wahan ar gyfer y babanod, gyda staff cymwys a phrofiadol yn gyfrifol am sicrhau bod pob plentyn yn derbyn gofal a sylw tyner a phriodol. Rhoddir ystyriaeth i anghenion a datblygiad pob plentyn unigol yn cynnwys cysgu, cymdeithasu, dysgu a chwarae.

Mae'r feithrinfa yn gweithredu system gweithiwr allweddol sy'n sicrhau bod gan bob plentyn unigol aelod o staff penodol sydd a chyfrifoldeb pennaf dros ofal a lles y plentyn. Mae hyn yn cyfrannu tuag at sicrwydd a hyder plant ac yn creu naws cyson a chartrefol yn y feithrinfa.

Trwy gofrestru eich plentyn ym Meithrinfa Medra, gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd camau bychain cyntaf eich plentyn yn rhai sicr a hyderus.

GENERAL INFORMATION

Mudiad Meithrin, the principal provider of Welsh-medium care and education in Wales owns and manages Meithrinfa Medra. With over a 180 professional staff all over Wales, the nursery is therefore able to benefit from specialist advice on an all Wales level.

The happiness and safety of each and every child is Meithrinfa Medra's priority - the nursery offers the best possible care in a happy and secure atmosphere, and the opportunity for each child to reach his or her full potential by learning through play. Each room has equipment, toys and resources which reflect the developmental needs and the age range of the children. Activities for children over 2 years of age reflect the Foundation Phase 3-7 years old (the national early years curriculum in Wales) so that the nursery can ensure that each child receives the best possible start in all aspects of his/her education. Careful attention has been given to planning the outside play areas, so that the nursery can offer children opportunities for stimulating activities in the open air.

Separate and designated rooms are provided for the care of babies, with trained and experienced staff to ensure that each child receives appropriate and tender care and attention. Consideration is given to each individual child's developing needs including sleep, socialising, learning and play.

The nursery operates a key worker system which ensures that each child has a designated member of staff who has overall responsibility for his/her care and wellbeing. This contributes towards children's confidence and feeling of security, and creates a consistent and homely environment within the nursery

By registering your child at Meithrinfa Medra you may rest assured that your child's first steps will be sure and positive ones.

Amseroedd Agor a Ffioedd
Opening Times and Fees

	DAN 2 OED *UNDER 2 YEARS*	**DROS 2 OED** *OVER 2 YEARS*
DIWRNOD LLAWN / *FULL DAY*		
7.30am– 6.00pm	£42	£40

(Mae'r prisiau'n cynnwys brecwast, cinio, tê ysgafn a byrbryd prynhawn
Prices include breakfast, lunch, a light tea and an afternoon snack)

BORE / *MORNING*		
7.30am – 1.00pm	£22.05	£21.00

(Mae'r prisiau'n cynnwys brecwast a chinio / *Prices include breakfast and lunch)*

PRYNHAWN/*AFTERNOON*		
1.00pm – 6.00pm	£20.73	£19.43

(Mae'r prisiau'n cynnwys byrbryd a thê ysgafn / *Prices include snack and a light tea)*

Sesiwn Ysgol – 11.00 am – 6.00 p.m. i blant dros 3 oed yn unig £31.34
School session – 11.00 am – 6.00 p.m. for 3 year old only

(**Sesiwn yma yn cynnwys bws o Ysgol y Graig a Corn Hir yn unig**, *Includes pick up from Ysgol y Graig and Corn Hir children only).*
(Mae'r prisiau'n cynnwys cinio, tê ysgafn a byrbryd phrynhawn / *Prices include lunch, a light tea and afternoon snack)*

CRYNODEB O RAI O BOLISÏAU ALLWEDDOL MEITHRINFA MEDRA
(Mae copi llawn o'r polisïau i'w gweld yn y feithrinfa)

Derbyn Plant
Mae croeso i bob plentyn fynychu Meithrinfa Medra waeth beth fo'i anghenion, liw, hil, iaith, crefydd, dosbarth cymdeithasol neu sefyllfa deuluol. Bydd Meithrinfa Medra yn cydymffurfio ag amodau cofrestru AGGCC parthed y nifer o blant a ganiateir.
Rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol wrth dderbyn plant:
- Plant sydd a'u henwau yn gyntaf ar y rhestr aros
- O'r rhain rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd angen gofal dydd llawn

Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol
Nod Meithrinfa Medra yw darparu amgylchedd sy'n seiliedig ar ganllawiau clir, teg a chyson, ac sy'n hyrwyddo dealltwriaeth plentyn o ymddygiad derbyniol. Mae Meithrinfa Medra yn credu bod cosbi plant yn gorfforol yn gwbl annerbyniol, ac mae'r dull hwnnw o gosbi plant yn cael ei wahardd.

Bydd Meithrinfa Medra yn sicrhau bod pob dull a ddefnyddir o reoli ymddygiad yn addas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y plentyn unigol. Bydd staff y feithrinfa yn sicrhau bod cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir o ddydd i ddydd, ac o berson i berson. Ymhob achos lle mae ymddygiad plentyn yn achosi gofid, bydd staff y feithrinfa yn trafod y sefyllfa yn bositif gyda rhieni/gwarcheidwyr yn ddiymdroi, ac yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd i'w defnyddio yn y feithrinfa ac yn y cartref.

Cyfleoedd Cyfartal
Bydd Meithrinfa Medra yn sicrhau bod pob agwedd o'i weithgareddau yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob unigolyn, beth bynnag fo'i genedl, lliw, hil, rhyw, anabledd, crefydd, oed diwylliant neu ddosbarth cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys mynediad i weithgareddau, triniaeth gyfartal a pharch tuag at bob unigolyn.

Cynhwysiant
Mae Meithrinfa Medra yn ymrwymo i roi cefnogaeth briodol i bob plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig. Bydd Meithrinfa Medra yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cynllun Cyfeirio lleol, ac asiantaethau perthnasol eraill i sicrhau cymorth a chefnogaeth i'r plentyn a'i deulu.

Amddiffyn Plant
Bydd Meithrinfa Medra yn amddiffyn bob plentyn dan ei ofal. Mae Meithrinfa Medra yn credu bod gan bob plentyn yr hawl i ddisgwyl bod yr oedolion sy'n gofalu amdano yn ei amddiffyn rhag pob niwed. Mae hapusrwydd, diogelwch a ffyniant bob plentyn yn bwysig i Meithrinfa Medra.

Mae Meithrinfa Medra yn cael ei harolygu yn flynyddol gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymru (AGGCC)

A SUMMARY OF SOME OF MEITHRINFA MEDRA'S KEY POLICIES
(A full copy of the policies is available in the nursery)

Admissions

Meithrinfa Medra welcomes every child, whatever his/her needs, colour, race, religion, social class or family situation. Meithrinfa Medra conforms to the registration conditions as laid down by CSSIW regarding the number of children allowed in each room. The following is taken into consideration when allocating places:

- Children who have been placed on the waiting list first
- Of these priority is given to those requiring full day care

Promoting Positive Behaviour

Meithrinfa Medra aims to provide an environment based on clear, fair and consistent guidelines which promote a child's understanding of acceptable behaviour. Meithrinfa Medra believes that physical punishment of children is unacceptable, and does not allow the use of this method of discipline.

Meithrinfa Medra will ensure that every method of behaviour management that is used is appropriate for the age and level of development of the individual child. The nursery staff will ensure that there is a consistency in the methods that are used from day to day and from person to person.

In every case where a child's behaviour causes concern, the nursery staff will discuss the situation with the parents/carers without delay and develop a combined plan of action to be used in the setting and in the home.

Equal Opportunities

Meithrinfa Medra seeks to ensure that all aspects of its activities promote equal opportunities for every individual regardless of nationality, colour, race, gender, disability, religion, age culture or social class.

This will include access to activities, equal treatment and respect towards each individual.

Inclusion

Meithrinfa Medra is committed to providing appropriate support to each child who has special educational needs. Meithrinfa Medra will work in partnership with the local Referral Scheme and other relevant agencies to ensure help and support for the child and his/her family.

Child Protection

Meithrinfa Medra will protect all children in its care. Meithrinfa Medra believes that each child has the right to expect that adults caring for him/her will protect him/her from any harm. The happiness, safety and well being of every child is important to Meithrinfa Medra.

Meithrinfa Medra is inspected annually by the Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW).

DATGANIAD O DDIBEN

Nod ac Amcanion
Nod Meithrinfa Medra yw darparu gofal dydd llawn ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o ansawdd i fechgyn a merched o 12 wythnos oed hyd at oed ysgol statudol.

Nifer y Plant
Mae'r feithrinfa yn gallu derbyn hyd at 60 o fechgyn a merched. 15 rhwng 12 wythnos a 2 oed, 15 rhwng 2 – 3 oed a 30 o blant 3 oed hyd at oed ysgol statudol.

Iaith
Mae'r feithrinfa yn gweithredu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Cyfleusterau
Mae'r cyfleusterau a gynigir i'r plant a'u teuluoedd yn cynnwys:

- Tair ystafell wedi eu cynllunio i greu amgylchedd ysgogol ar gyfer oedrannau penodol.
- Ystafelloedd cysgu/gorffwys er mwyn ymateb i anghenion penodol pob plentyn yn unigol.
- Ardal greadigol sydd yn cynnig cyfle i'r bechgyn a merched arbrofi a datblygu eu creadigrwydd.
- Cegin ac ystafell fwyta.
- Ardal chwarae tu allan gydag arwynebedd diogel.
- Ardal allanol ychwanegol gyda glaswellt er mwyn datblygu chwilfrydedd a gwerthfawrogiad o fyd natur mewn plant.
- Systemau diogelwch electroneg i reoli mynediad i ardaloedd y bechgyn a merched.
- Ystafell gyfarfod i rieni gael trafod materion yn ymwneud â'u plant yn gyfrinachol, neu i gael cyngor gan arbenigwyr megis ymwelwyr iechyd neu therapyddion.

Gwasanaeth
Mae Meithrinfa Medra yn cynnig gofal safonol, hyblyg a fforddiadwy i rieni. Mae'r ddarpariaeth ar agor o 7.30 y bore tan 6 yr hwyr, Llun-Gwener dros 51 wythnos y flwyddyn ac eithrio'r Gwyliau Banc canlynol: Dydd Calan, Dydd Gwener y Groglith, Dydd Llun y Pasg, Calan Mai, Y Sulgwyn, Gŵyl Banc mis Awst. Hefyd, **ni fydd** y feithrinfa ar agor o ddiwrnod Nadolig hyd at y diwrnod ar ôl y flwyddyn newydd.

Sesiynau

Mae Meithrinfa Medra yn cynnig sesiynau isod:
Sesiwn drwy dydd - 7.30 y bore – 6.00 yr hwyr,
Sesiwn bore 7.30 y bore – 1.00 y pnawn,
Sesiwn prynhawn 1.00 y pnawn – 6.00 yr hwyr.
Sesiwn 11.00 y bore – 6.00 yr hwyr ar gyfer bechgyn a merched 3 oed **yn unig**.
Mae'r plant yma yn mynychu Ysgol y Graig ag Ysgol Corn Hir yn y bore. Mae cost y sesiwn yma yn cynnwys trafnidiaeth o'r ysgol i'r feithrinfa.

Derbyn
Mae'r feithrinfa yn cydymffurfio â'r amodau cofrestru yn unol a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 parthed oed y plant a'r nifer a ganiateir. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r canlynol wrth ddyrannu llefydd:

- Bechgyn a merched sydd a'u henwau yn gyntaf ar y rhestr aros
- o'r rhain rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd angen gofal dydd llawn.

Gweithgareddau
Blaenoriaeth Meithrinfa Medra yw hapusrwydd bob bachgen a merch. Darperir gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol, lle gall plant fanteisio ar amrywiaeth eang o weithgareddau a phrofiadau chwarae sy'n eu galluogi i ddysgu a datblygu i'w llawn potensial. Mae'r feithrinfa yn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen 3-7oed (y cwricwlwm blynyddoedd cynnar cenedlaethol) er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau posib ymhob agwedd o'i addysg.

Anghenion Ychwanegol
Mae Meithrinfa Medra yn ymrwymo i ddarparu cefnogaeth sy'n briodol, ac sy'n cwrdd ag anghenion pob plentyn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn ôl y gofynion ar amodau a amlinellir yn y *Cytundeb Rhieni.* Mae copi o'r cytundeb yn y *Pecyn Cofrestru*.

Rhieni / Gwarcheidwaid
Mae'r feithrinfa yn cefnogi'r egwyddor o dderbyn barn rhieni/gwarcheidwaid a bob bachgen a merch ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth o hyd o'r safon uchaf. Hysbysir rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â'r polisi a'r drefn o ganmol a chwyno cyn i'w plentyn gychwyn yn y feithrinfa. Gall rhieni/gwarcheidwaid hefyd gysylltu yn uniongyrchol â'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru os oes ganddynt gŵyn ynglŷn â safon y gwasanaeth a gynigir.

Staff
Darperir y gwasanaeth gan dîm o staff cymwys ac ymroddgar a threfnir rhaglen o hyfforddiant mewn swydd i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sydd yn angenrheidiol i ddarparu gofal ac addysg o'r safon uchaf posib.

Bod yn iach
Byddwn yn darparu prydau bwyd blasus a diod o ddŵr i'ch plentyn yn ystod y sesiynau ynghyd â a byrbryd maethlon ac iach.

Trefn Tywydd drwg
Bydd y rheolwr yn cysylltu a'r unigolyn cyfrifol yn gynnar yn y bore os bydd pryder. Bydd penderfyniad ynglŷn a chau oherwydd eira neu dywydd drwg yn ddibynnol os yw'r ysgolion lleol yn cau ac os yw aelodau'r staff yn gallu cyrraedd y gwaith. Petai tywydd gwael yn taro pan fo'r plant yn y feithrinfa, bydd y rheolwr yn cysylltu â'r unigolyn cyfrifol ac yna yn gwneud y penderfyniad i gau a'i peidio gan gadw'r canlynol mewn cof – a yw'r ysgol agosaf yn cau? A yw hi'n ddiogel i rieni/gwarcheidwad gasglu'r plant? A all y staff gyrraedd adref o'r gwaith?
Os penderfynir cau'r feithrinfa bydd y rheolwr yn cysylltu a'r rhieni/gwarcheidwad drwy neges destyn, neges ar facebook, neu alwad ffôn i roi gwybod iddynt.

Argyfwng Meddygol
● Petai blentyn angen triniaeth feddygol mewn argyfwng a bod y feithrinfa yn methu cysylltu â'r rhieni na'r personau cyswllt brys arall, bydd y feithrinfa yn gwneud trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch y plentyn.
● Mae arwyddo'r cytundeb gofal plant a'r ffurflen gofrestru yn caniatáu i'r feithrinfa i unrhyw driniaeth feddygol brys a allai fod yn angenrheidiol mewn argyfwng.

Iechyd a Diogelwch
Mae'r feithrinfa yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth "Iechyd a Diogelwch" gan wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y feithrinfa, e.e amddiffyn rhag yr haul, archwilio offer, hylendid bwyd, ayyb.
Mae'r Feithrinfa yn sicrhau bod y staff yn meddu ar Dystysgrif "Cymorth Cyntaf Pediatrig" cyfredol, ac yn mynychu hyfforddiant rheolaidd.
Trefnir archwiliadau blynyddol ar yr offer trydanol i gyd, ynghyd â'r offer Diffodd Tân.

Trefn canmol a chwyno

Rydym yn croesawu eich sylwadau am ein gwasanaeth fel y gallwn eu gwella yn ôl yr angen, neu fod yn falch o'r gwaith rydym yn ei wneud. Mae croeso i chwi grybwyll wrth y rheolwr neu lenwi thaflen yn ein llyfr sylwadau, rydym yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr, ac yn gallu datblygu yn bellach ar yr hyn sydd angen sylw.

Os ydych am gwyno am unrhyw agwedd o'n gwaith, dylech ddweud wrth Reolwr y ddarpariaeth i ddechrau ar lafar ac yna os eisiau gwneud y cwyn yn ffurfiol - trwy ysgrifennu at bersonnau Cyfrifol y Feithrinfa sef Dr Gwenllian Lawnsdown Davies PRIF WEITHREDWR MUDIAD MEITHRIN, neu â Ms Leanne Marsh DIRPRWY BRIF WEITHREDWR MUDIAD MEITHRIN, ar y cyfeiriad - Canolfan Integredig Mudiad Meithrin, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion,SY23 1PD.

neu drwy gysylltu gyda

AGGCC/CSSIW, Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach, CYFFORDD LLANDUDNO, Conwy, LL31 9RZ. 03007900126

Cofrestriad

Mae Meithrinfa Medra wedi ei chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cyfeiriad eu swyddfa agosaf yw:

AGGCC
Rhanbarth Gogledd Cymru
Swyddfeydd y Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5609

Cyfeiriad Meithrinfa Medra

Meithrinfa Medra
Canolfan Plant Llangefni
Ffordd y Coleg
Llangefni
LL77 7LP
Rhif ffôn: 01248 725825
Ebost: post@meithrinfamedra.co.uk

STATEMENT OF PURPOSE

Aims and Objectives
Meithrinfa Medra aims to provide quality Welsh-medium full daycare and early years education for boys and girls from 12 weeks old to statutory school age.

Numbers of Children
The nursery is registered to accept up to 60 boys and girls. 15 boys and girls between 12 weeks and 2 years old, 15 boys and girls between 2 – 3 years old and 30 boys and girls between 3 years old to statutory school age.

Language
Meithrinfa Medra operates through the medium of Welsh.

Facilities
The facilities available to the boys and girls and their families include:

- Three rooms, each designed to create a stimulating environment for specific age groups
- Sleep/Rest rooms to respond to the specific needs of each boy and girl
- A creative area which offers opportunities for children to experiment and develop their creativity
- A kitchen and dining room
- Outside play areas with safety surfaces
- Additional grassed areas to develop children's enthusiasm and appreciation for the natural world
- Electronic security systems controlling access to the children's areas
- A meeting room for parents to discuss issues relating to their children in privacy, or to seek advice from specialists such as health visitors or therapists

Services
Meithrinfa Medra offers quality, flexible and affordable childcare to parents. The provision is available between 7.30am and 6pm, Monday-Friday for 51 weeks of the year except for the following Bank Holidays: New Years Day, Good Friday, Easter Monday, May Day, Whitsun, and August Bank Holiday. The nursery will also be closed from Christmas day until the day after New Year's Day.

Sessions

Meithrinfa Medra offers the following sessions:
Full day – 7.30 a.m. – 6.00 p.m.
Morning session 7.30 a.m. – 1.00 p.m.
Afternoon session 1.00 p.m. – 6.00 p.m.
11.00 a.m. – 6.00 p.m. This session is ONLY offered to the 3 year old boys and girls attending Ysgol y Graig and Ysgol Corn Hir morning sessions. This session includes the cost of transport from the relevant school back to Meithrinfa Medra.

Admission

The nursery conforms to the registration conditions as laid down by the Children and Families (Wales) Measure 2010 regarding the age of the children and the numbers allowed. The following criteria are also taken into consideration when allocating places:

- boys and girls who have been placed on the waiting list first
- of these priority is given to those requiring full day care

Activities

The happiness of each boy and girl is a priority at Meithrinfa Medra. The best possible care is offered in a safe and stimulating environment where boys and girls can benefit from a wide range of play activities and experiences that enable them to learn and develop to their full potential. The Foundation Phase (3-7 years old) forms the basis of the early years curriculum in Meithrinfa Medra thus ensuring that each boy and girl receives the best possible start in all aspects of his/her education.

Additional Needs

Meithrinfa Medra is committed to providing appropriate support for each boy and girl with additional needs. The service is provided in accordance with the terms and conditions outlined in the *Parents' Contract*. A copy is available in the *Registration Pack.*

Parents/Guardians

The nursery supports the principle of seeking the opinion of parent/guardians and children regarding the provision to ensure the service are always of the highest quality. Parents/Guardians are informed of the Compliments and Complaints Policy and procedures before their child starts in the nursery. Parents/Guardians can also contact the Care and Social Services Directorate Wales directly if they have a complaint regarding the quality of the service offered.

Staff

The service is provided by a team of qualified and dedicated staff. A programme of in-service training is arranged to ensure that staff have the essential knowledge and skills to provide care and education of the highest standard.

Healthy living

We prepare delicious and healthy meals, and a drink of water for your child through the sessions, and also a nutritious and healthy snacks.

Bad Weather Procedure

The manager will contact responsible person early in the morning if any doubt of bad weather. A decision to close due to snow or any other severe weather will depend if surrounding schools are closed and if members of staff can arrive at the nursery. If severe weather happens when the children are at the nursery, the manager will correspond with the responsible person and then make a decision either to close or not taking the following into consideration – is the nearest school closing? Is it safe for parents/guardians to collect the children? Can all staff travel home?

If the decision is made to close the nursery, the manager and staff will contact all parents/guardians by text, a message on facebook, or by phone.

In case of a Medical Emergency

If a child needs medical treatment in an emergency and the nursery is unable to contact the parent or any other emergency contacts, the nursery will make any necessary arrangements to ensure child's safety.

When signing the childcare contract and registration form parents give consent for the nursery to allow any emergency medical treatment that may be necessary to ensure the child's safety.

Health and Safety

The nursery complies with the 'Health and Safety' legislation requirements by following all reasonable and practical requirements to ensure every individual's health and safety in the nursery e.g protection from sun, inspect all equipment, food safety etc. The nursery ensures that all staff have an updated 'Peadiatric First Aid' certificate, and attend frequent training. All electrical equipment are inspected yearly and all Fire Extinguishers.

Praise and Complaints Procedure

We welcome all comments concerning our service so that we can make improvements when needed, or be proud of the work we do at the nursery. You're welcome to mention any comment to the manager or fill a form in our Comment Book, we appreciate your opinion, and can develop further on the areas that need our attention.

If you need to complain about any aspect of our work, you should have a word with the Nursery Manager to begin the discussion verbally, then if you feel the need to make an official complaint contact the nursery's Registered Persons Dr Gwenllian Lawnsdown Davies MUDIAD MEITHRIN CHIEF EXECUTIVE, neu â Ms Leanne Marsh MUDIAD MEITHRIN DEPUTY CHIEF EXECUTIVE, ar y cyfeiriad - Canolfan Integredig Mudiad Meithrin, Boulevard de Saint-Brieuc, Aberystwyth, Ceredigion,SY23 1PD.

neu drwy gysylltu gyda
AGGCC/CSSIW, Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach, CYFFORDD LLANDUDNO, Conwy, LL31 9RZ. 03007900126

Registration

Meithrinfa Medra is registered with the Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW). The address of their local office is:

CSSIW
North Wales Regional Office
Government Buildings
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
Telephone: 0300 062 5609

Meithrinfa Medra Address

Meithrinfa Medra
Canolfan Plant Llangefni
Ffordd y Coleg
Llangefni
LL77 7LP
Tel No: 01248 725825
Email: post@meithrinfamedra.co.uk

Ffurflen Datgan Diddordeb / *Expression of Interest Form*

Enw'r Plentyn / *Child's Name:* _____

Dyddiad Geni / *Date of Birth*:_____

Enwau a chyfeiriad Rhieni/Gwarcheidwaid / *Parents/Guardians Name and Address***:**

Enwau/*Names*:	Cyfeiriad/*Address*: Rhif ffôn/*Phone number*:

Dangoswch y sesiynau rydych yn meddwl y byddwch eu hangen drwy roi tic yn y blychau perthnasol / *Indicate the sessions you are likely to require by ticking the relevant boxes***:**

	Llun *Mon*	**Maw** *Tues*	**Mer** *Wed*	**Iau** *Thurs*	**Gwe** *Fri*
7.30am-6.00pm					
7.30am-1.00pm					
1.00pm-6.00pm					
11.00am-6.00pm **3 oed/3 yrs**					

Os yr ydych eisiau i ni yrru pecyn gwybodaeth i'ch cyfeiriad os gwelwch yn dda ticiwch y blwch / *If you wish for us to send an information pack to your address please tick this box.*

☐

Dyddiad cychwyn tebygol/*Anticipated start date*: _____

Llofnod/*Signature:* _____ **Dyddiad**/*Date:* _____

Dychwelwch y ffurflen hon gynted ag y bo modd i/ *Please return this form as soon as possible to*:

Meithrinfa Medra
Canolfan Plant Llangefni
Ffordd y Coleg
Llangefni LL77 7LP

Bydd staff y feithrinfa yn cysylltu â chi yn syth wedi iddynt dderbyn y ffurflen hon I gadarnhau lle ac i drefnu cyfnod setlo / *The nursery staff will contact you immediately when they receive this form to confirm the space and arrange a settling in session.*

At ddefnydd swyddfa yn unig / ***For office use only*****:**
Dyddiad derbyn yn ôl: _____
Dyddiad cyfnod setlo:_____
_____
Dyddiad dechrau: _____

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar